



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru:

**Tystiolaeth atodol Llywodraeth Cymru
i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng
Nghymru – Addysg a Chyflogaeth**

Cynnwys

Cyflwyniad/trosolwg	1
Crynodeb o amcanion polisi a chymau gweithredu Llywodraeth Cymru	3
Pa ymyriadau adsefydlol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi/eu cyllido?	6
Beth sy'n gweithio'n dda a pham?	7
Beth yw'r rhwystrau i brosesau darparu mwy effeithiol a gwell canlyniadau?	8
Beth yw'r cysylltiadau rhwng polisi/rhaglenni Llywodraeth Cymru a'r system gyfiawnder?	9
Pwy yw'r partneriaid/rhanddeiliaid allweddol y byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiwn glywed ganddynt?	10
Casgliad	11

Y Gweinidog Arweiniol yn awr ac eraill sydd â diddordeb:

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Swyddogion arweiniol ac eraill sydd â diddordeb:

Rachel Garside-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflogadwyedd a Sgiliau

Cyflwyniad/trosolwg

Ar 1 Ebrill 2009, trosglwyddodd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2009 (Erthygl 2) swyddogaethau o dan adran 47 o Ddeddf Carchardai 1952 mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a llyfrgelloedd, i'r graddau roeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Weinidogion Cymru. Drwy hyn, cafodd Gweinidogion Cymru y pŵer i wneud rheolau mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a'r gwasanaethau llyfrgell sydd ar gael mewn carchardai yng Nghymru.

Gall y Rheolau Carchardai bennu gofynion cyfreithiol mewn perthynas â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaeth llyfrgell. Mae'r pwerau i wneud rheolau yn gymharol gyfyngedig yn yr ystyr nad yw'r swyddogaethau a drosglwyddwyd yn galluogi Gweinidogion Cymru eu hunain i sicrhau/comisiynu addysg na hyfforddiant mewn carchardai. Erys y pŵer i sicrhau/comisiynu addysg neu hyfforddiant mewn carchardai yng Nghymru yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Erys yn gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnal carchardai a charcharorion o dan adran 4 o Ddeddf Carchardai 1952 ac erys yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am oruchwyliaeth gyffredinol carchardai yng Nghymru.

Nid yw Gweinidogion Cymru erioed wedi arfer eu pŵer i wneud rheolau o dan adran 47 o Ddeddf 1952. Hynny yw, nid ydynt erioed wedi gwneud rheolau penodol ynghylch addysg, hyfforddiant na llyfrgelloedd mewn carchardai yng Nghymru. Mae Rheolau Carchardai a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn 1999 yn parhau i fod yn gymwys i garchardai yng Nghymru.

Nid yw'r rheolau yn rhagnodol iawn. Er enghraifft, nid ydynt yn manylu o gwbl ar y math o addysg na lefel yr addysg y dylid ei threfnu. Nid ydynt ond yn ei gwneud yn ofynnol i ddosbarthiadau addysgol gael eu trefnu ac i'r charcharorion hynny sy'n gallu cael budd o addysg gael eu hannog i gymryd rhan.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido (o gyllid a ddarperir i Weinidogion Cymru yn benodol at y diben hwn gan Lywodraeth y DU) y ddarpariaeth o addysg a dysgu a llyfrgelloedd mewn carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru drwy *Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth* ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Y Gwasanaeth hwn sy'n gyfrifol am gomisiynu'r holl addysg a dysgu a ddarperir mewn carchardai yng Nghymru (CEM Caerdydd, Abertawe, Brynbuga, Prescoed, Parc a CEM Berwyn). Ac eithrio CEM Parc, caiff yr holl weithgarwch dysgu a ddarperir ar gyfer troseddwy mewn carchardai yn y de ei ddarparu gan staff mewnol a gyflogir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (cyflogir staff CEM Parc gan G4S). Mae trefniant ar wahân ar waith i CEM Berwyn lle mae darpariaeth addysg a dysgu wedi'i chontractio i Novus Cambria.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gyfystyr â chytundeb cyfreithiol gyfrwymol sy'n gosod rhwymedigaethau gorfodadwy cyfreithiol gyfrwymol ar y partïon, neu sy'n rhoi hawliau cyfreithiol orfodadwy i'r partïon. Felly, mae'r trefniadau presennol yn dibynnu ar y ddau barti yn parhau i gytuno i'r trefniadau. Gallai Llywodraeth y DU benderfynu tynnu'n ôl o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a pheidio â rhoi cyllid i Lywodraeth Cymru mwyach, a phennu'r cyfeiriad ar gyfer dysgu mewn carchardai yng Nghymru heb unrhyw fewnbwn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r trefniadau presennol yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru wella ansawdd a pherthnasedd dysgu i droseddwy yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'n cefnogi nifer o ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu: Symud Cymru Ymlaen a'r Strategaeth Genedlaethol, Ffyniant i Bawb, gyda ffocws allweddol ar roi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i gael swydd. Drwy well addysg a dysgu sgiliau bywyd, bydd hyn

yn fodd i dorri cylch anfantais ac anghydraddoldeb y mae llawer yn ei brofi yn y cohort hwn dros y tymor hwy.

Yn y Cynllun Cyflogadwyedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd i unigolion sy'n barod i ymgymryd â swydd, a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, i'w galluogi i ddysgu'r sgiliau a chael y profiad er mwyn iddynt gael cyflogaeth gynaliadwy a pharhau yn y gyflogaeth honno.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno gennym, er mwyn sicrhau bod pob carcharor yn cael yr un mynediad at addysg a hyfforddiant sgiliau, gan sicrhau bod cymorth yn unol â'r ymrwymadau yn y Cynllun Cyflogadwyedd.

Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi'r fframwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i gefnogi newid i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu "Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru", sy'n cydnabod yr ystyrir mai gostwng aildroseddu drwy sgiliau a chyflogaeth yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wrthsefyll troseddu.

Crynodeb o amcanion polisi a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno gennym, er mwyn sicrhau bod pob carcharor yn cael yr un mynediad at addysg a hyfforddiant sgiliau. Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer hyfforddiant sgiliau mewn carchardai, ond mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob math o hyfforddiant yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn Symud Cymru Ymlaen a'r Cynllun Cyflogadwyedd.

Y cam cyntaf ar lwybr carcharor tuag at gyflogaeth ar ôl cael ei ryddhau yw dysgu'r sgiliau cywir. Mae gan lawer o'r rhai sy'n mynd i'r carchar lefel addysg isel. Mae hyn yn gwneud hyfforddiant effeithiol a pherthnasol yn y carchar yn hollbwysig. Mae pob carchar yn rhoi llwybr cyson i ddysgwyr, gan gynnwys asesiadau a rhaglen llwybr strwythuredig. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i unigolion fynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu, datblygu eu sgiliau, diddordebau ac agweddau tuag at waith a'u helpu i ddychwelyd i'r gymuned gyda gwell sgiliau a galluoedd a all arwain at waith a lleihau'r risg o aildroseddu.

Mae carcharorion yn cael eu hasesu drwy Becyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru er mwyn pennu lefel eu hanghenion a'u gallu. Drwy hyn, bydd Cynllun Dysgu Unigol yn cael ei lunio iddynt, a fydd yn mapio eu gweithgarwch a'u hyfforddiant sgiliau hyd at gwblhau cymwysterau'n llwyddiannus a dysgu sgiliau cyflogadwyedd allweddol.

Mae Gyrfa Cymru a Hyfforddwyr Canolfan Byd Gwaith yn gweithio gyda charcharorion yn ystod eu cam adsefydlu ar hyn o bryd, ond maent yn aml yn gweithio ar wahân i'w gilydd. Mae'r naill a'r llall wedi mynegi awydd am fwy o gydweithredu, yn ogystal â chysylltiadau agosach â'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol, er mwyn sicrhau llai o ddyblygu a gwell llwybr at gyflogaeth i garcharorion.

Mae Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd, a gyllidir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ar gael ar hyn o bryd mewn carchardai yn y de ac, o 2018, bydd ar gael yn CEM Berwyn. Bydd Cyngorwyr Gyrfa Cymru i'r carchar yn gweithio'n agos gyda staff y carchar a hyfforddwyr gwaith i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o hysbysu carcharorion o'r hyn a gynigir gan Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd.

Mae Cyngorwyr Gyrfa Cymru ar gael i roi cyngor ac arweiniad i unrhyw garcharor sy'n cael ei gyfeirio atynt am gymorth. Nod y cyfarfod yw eu helpu i bontio i gyflogaeth, addysgu neu hyfforddiant ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Maent yn rhyngweithio un i un â charcharorion a gyfeiriwyd yn ystod eu cam adsefydlu cyn iddynt gael eu rhyddhau er mwyn trafod y camau nesaf. Rhoddir canlyniad ysgrifenedig (cynllun symud ymlaen) i garcharorion o ganlyniad i ryngweithio unigol. Bydd Cyngorwyr Gyrfa Cymru, lle y bo'n briodol, yn cyfeirio carcharorion at y ganolfan gyrfaoedd yn yr ardal y mae'r carcharor yn dychwelyd iddi (os yw yng Nghymru). Bydd hyn yn cynnwys cymorth pellach, gan gynnwys defnyddio cyfleusterau Gyrfa Cymru.

Bu newid diweddar yn ffocws y gweithgarwch mewn carchardai a hyfforddiant sgiliau gyda phwyslais bellach ar anelu at weithredu mewn ffordd fwy modern sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth, yn enwedig cyflogaeth ar adeg rhyddhau, yn hytrach nag un sy'n arwain at gymwysterau nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol yn y farchnad lafur fodern.

Mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ddatblygu'r *Strategaeth Cyflogaeth ac Addysg* ar gyfer yr ystad garchardai yng Nghymru a Lloegr. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at yr angen i weithio'n agosach gyda chyflogwyr a defnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn fwy cadarn er mwyn canolbwyntio ymyriadau ar gyfleoedd cyflogaeth gwirioneddol. Mae'r strategaeth yn

amlinellu'r ffyrdd y gall cysylltiadau â chyflogwyr, y Ganolfan Byd Gwaith, Cynghorwyr Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol gael eu cryfhau ac y gall y ddarpariaeth sydd ar gael ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolion er mwyn iddynt ddod o hyd i gyflogaeth yn yr ardal lle maent yn cael eu hadsefydlu.

Yn unol â'r Strategaeth Cyflogaeth ac Addysg, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wrthi'n cynnal *adolygiad strategol* o ddysgu mewn carchardai yng Nghymru sy'n destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Bydd yr adolygiad yn ystyried yr hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, yn asesu ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys datblygu Fframwaith Ansawdd Integredig (gweler y paragraff isod ar ansawdd), a cheisio gwneud gwelliannau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad, gan gynnwys ystyried ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau.

Yn ogystal â'r uchod, mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi cynnig bod adolygiad annibynnol o Ddysgu Troseddwy'r yng Nghymru yn cael ei gynnal gan David Hanson AS. Bydd yr adolygiad yn ystyried y ddarpariaeth addysg a gynigir i droseddwy'r yng Nghymru ac yn ystyried y system gymorth gyfan ac ni fydd wedi'i gyfyngu i ddarparu addysg yn yr ystad garchardai er mwyn deall sut y gellir hwyluso gwelliannau i'r ddarpariaeth.

Bydd Adolygiad Hanson yn adrodd yn ôl i'r Gweinidogion yn yr hydref gydag asesiad llawn o'r system bresennol ac argymhellion i'w gwella lle y bo angen.

Mynd i'r afael ag Aildroseddu

Mae aildroseddu gan y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn costio tua £15 biliwn y flwyddyn i gymdeithas – a chaiff y mwyafrif llethol o garcharorion eu rhyddhau o'r carchar rywbryd yn ystod eu bywydau. Drwy adsefydlu effeithiol, y nod yw gostwng aildroseddu a nifer y dioddefwyr yn y dyfodol, gan gydnabod yr ystyrir mai gostwng aildroseddu drwy sgiliau a chyflogaeth yw'r un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wrthsefyll troseddu. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gwella cyfle unigolyn i ddod o hyd i gyflogaeth ystyrion ar ôl cael ei ryddhau yn chwarae rhan allweddol yn y dasg o adsefydlu'n llwyddiannus.

Drwy'r ymyriadau a grybwyllwyd yn gynharach, byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod carcharorion yn cael cyfleoedd i ennill cymwysterau drwy ddarpariaeth dysgu a sgiliau sy'n rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt gael cyflogaeth sicr ac ystyrion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a pharhau yn y gyflogaeth honno.

Er bod data ystadegau gwladol ar gyfraddau troseddu ac aildroseddu ar gael ar lefel Cymru a Lloegr, nid yw'r ystadegau hyn wedi'u dadansoddi ar lefel Cymru. Fel y cyfryw, nid oes modd nodi unrhyw dueddiadau na phatrymau o aildroseddu ar lefel Cymru, nac ychwaith fesur a yw canlyniad cyflogaeth llwyddiannus i garcharor sy'n gadael y carchar, wedi arwain at ymddygiad nad yw'n cynnwys aildroseddu.

Nid yw Llywodraeth Cymru na Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn olrhain taith carcharor drwy'r giât ar hyn o bryd er mwyn mesur effaith ymyriadau addysg a sgiliau tra bydd y carcharor yn y carchar, a monitro a yw'r ymyriadau hyn wedi arwain at ganlyniad cyflogaeth llwyddiannus. Fel y cyfryw, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i brosiect ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi er mwyn nodi ac olrhain cohort penodol o droseddwy'r er mwyn canolbwyntio ar effaith cymorth cyflogadwyedd yn y carchar ac ar ôl rhyddhau.

Oherwydd y dull amlasiantaethol o gefnogi carcharor yn ystod y cam adsefydlu, mae diffyg eglurder ynglŷn â pha sefydliad ddylai fod yn gyfrifol am olrhain canlyniad unigolion. At hynny, bydd rhannu data olrhain yn achosi heriau o bosibl o ran protocolau rhannu data oherwydd gall data gael eu dal gan randdeiliaid allweddol eraill sy'n rhan o daith y carcharor, megis y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, neu'n wir yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Ansawdd

Yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae amod clir bod yn rhaid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, drwy ei gyfrifoldebau comisiynu am ddysgu troseddwy'r yng Nghymru, sicrhau ei fod yn rhoi trefniadau ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yr holl ddarpariaeth dysgu a sgiliau sy'n cael ei chyllido'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan Weinidogion Cymru. Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi Cymru a Lloegr yn cynnal arolygiadau o garchardai ar y cyd ag Estyn sy'n cynnal yr adolygiad o ddysgu a sgiliau.

Yn ogystal â'r uchod, fel rhan o adolygiad Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi o ddysgu a sgiliau, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn datblygu fframwaith Sicrhau Ansawdd Integredig a fydd yn cynnig darpariaeth dysgu a sgiliau o ansawdd a diwylliant o welliant parhaus a datblygiad proffesiynol yn y carchardai. Bydd y fframwaith Sicrhau Ansawdd Integredig yn cynnwys hunanasesiad, adolygiadau mewnol o ansawdd, gweithgareddau ac adroddiadau sicrwydd a bydd yn gyson â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn ac argymhellion diweddar Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi/Estyn.

Yn ogystal â'r ymyriadau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i roi nifer o fesurau cefnogol ychwanegol ar waith er mwyn gwella cysylltiadau â chyfluoedd cyflogaeth a mynd i'r afael â rhwystrau i weithio i garcharorion pan gânt eu rhyddhau.

Pa ymyriadau adsefydlol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi/ eu cyllido?

Porth Cyngor Cyflogaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i Gyrfa Cymru i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd mewn carchardai yn y de a bydd yn integreiddio'r gwasanaeth hwn â CEM Berwyn cyn hir. Mae Gyrfa Cymru yn rhoi Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd i garcharorion yn ystod eu cam adsefydlu ac yn eu helpu i chwilio am gyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu'r Porth Cyngor Cyflogaeth a gaiff ei ddarparu gan Gyrfa Cymru a'i lansio ym mis Mawrth 2019. Bydd y Porth Cyngor Cyflogaeth yn cynnig dull cyffredin o nodi anghenion yr unigolyn fel rhan o'r broses o ail-lunio cymorth cyflogadwyedd yng Nghymru. Bydd y dull gweithredu hwn yn nodi'r rhai sydd ag anghenion cymorth cyflogaeth ar y cam cynharaf posibl ac yn creu proses atgyfeirio ddi-dor o gymorth cyflogadwyedd.

Bydd y porth yn rhoi cyngor ac arweiniad cynhwysfawr a diduedd ar gyflogadwyedd i bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru. Drwy'r porth, gall unigolion siarad â chynghorwyr hyfforddedig ynglŷn â chyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw broblemau a wynebant i gael gwaith. Caiff cyngor ac arweiniad eu rhoi wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein. Bydd cynghorwyr yn rhoi cymorth drwy nodi rhwystrau i gyflogaeth, y llwybr gorau tuag at gyflogaeth, a thrwy gyfeirio pobl at yr ymyriad(au) mwyaf priodol sydd ar gael.

Caiff gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfa Cymru ei integreiddio'n llawn â'r Porth Cyngor Cyflogaeth a fydd yn sicrhau y bydd pontio di-dor yn y cymorth a roddir pan gaiff carcharorion eu rhyddhau ac yn integreiddio'r gwasanaethau a weithredir ar hyn o bryd i roi cymorth i garcharorion yn ystod y cyfnod pontio hwn yn well. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gydag asiantaethau allweddol eraill i gefnogi carcharorion pan gânt eu rhyddhau, gan roi continwmm o gymorth i garcharorion wrth iddynt fynd drwy'r giât.

Llythrennedd Digidol

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno sgiliau/llythrennedd digidol mewn carchardai (fel rhan o gymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru). Bydd ychwanegu llythrennedd digidol at y gyfres hon o gyrsiau yn gwella'r ddarpariaeth i droseddwy'r sydd, yn aml, ymhlith y rhai y mae angen gwella eu sgiliau TG fwyaf. Mae cymhwyster Llythrennedd Digidol, a gyflwynir fel rhan o gyfres Sgiliau Hanfodol Cymru o gymwysterau, yn gymhwyster mwy cynhwysfawr na'r cymhwyster TGCh blaenorol. Mae'n rhoi'r gallu, y wybodaeth a'r profiad sylfaenol ym maes llythrennedd digidol i ddysgwyr sydd eu hangen arnynt er mwyn iddynt fod yn ddiogel ac yn ddoeth wrth ddefnyddio technoleg, ar lein ac all-lein.

Yn flaenorol, nid oedd modd cyflwyno'r elfen o Sgiliau Hanfodol sy'n ymwneud â Llythrennedd Digidol mewn carchardai am fod carcharorion yn cael eu hatal rhag cael mynediad at y rhyngwyd am resymau diogelwch. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i ymgynghorydd ymgymryd ag ymarfer cwmpasu er mwyn ystyried y rhwystrau i gyflwyno'r cymhwyster. Cyflwynodd yr ymgynghorydd adroddiad llawn ac argymhellion ar y ffordd y gellid cyflwyno'r cymhwyster hwn mewn carchardai. Disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Beth sy'n gweithio'n dda a pham?

Cyfleoedd i sicrhau gwell canlyniadau

Fel yr amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar lefel strategol a gweithredol, gan gyfarfod yn rheolaidd i drafod materion gweithredol a thrafod gwaith blaengynllunio. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n rhan o daith dysgu carcharorion yn ystod eu cyfnod yn y carchar, gan gyfarfod yn rheolaidd â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Gyrfa Cymru, er enghraifft, er mwyn trafod y materion sy'n codi o ran darparu addysg a hyfforddiant mewn carchardai a cheisio ffyrdd o integreiddio'r gwasanaethau sy'n gweithredu ar hyn o bryd.

Yn fwy diweddar, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi mynychu Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru sydd newydd ei sefydlu. Mae'r grŵp yn rhannu ei gadeirydd rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn ogystal â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cylch gwaith y grŵp yw:

- sicrhau bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'i gilydd ynglŷn â meysydd allweddol datblygu polisïau a diwygio
- sicrhau'r canlyniadau gorau posibl yn y system gyfiawnder yng Nghymru
- comisiynu grwpiau gorchwyl a gorffen trawslywodraethol er mwyn deall effaith prosesau datblygu polisïau, diwygio a darparu yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi er mwyn datblygu'r *Strategaeth Cyflogaeth ac Addysg* a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r strategaeth yn amlinellu nod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi o weithredu mewn ffordd fwy modern sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth mewn carchardai, yn enwedig cyflogaeth ar adeg rhyddhau a chydweithredu agosach rhwng rhanddeiliaid allweddol.

Beth yw'r rhwystrau i brosesau darparu mwy effeithiol a gwell canlyniadau?

Mae'r trefniadau darparu presennol ar gyfer dysgu a sgiliau yn amrywio yn yr ystad garchardai yng Nghymru. Yn y carchardai cyhoeddus yn y de, caiff gwasanaethau dysgu a sgiliau eu darparu gan staff y carchar (a gyflogir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder). Yn CEM Parc, mae pob un o wasanaethau'r carchar, gan gynnwys dysgu a sgiliau, wedi'i osod ar gontract i G4S. Yn CEM Berwyn, penderfynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder osod y ddarpariaeth dysgu a sgiliau ar gontract allanol, a ddyfarnwyd i Novus Cambria. Mae'r gwahaniaeth hwn o ran prosesau darparu yn cynnig heriau o ran sicrhau bod cysondeb yn yr ystad garchardai.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu a sgiliau mewn carchardai wedi aros yn ddigyfnewid ers 2009. Gyda chostau staff cynyddol, ynghyd â chynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi mynegi pryder nad yw'n cael yr adnoddau llawn sydd eu hangen arno i ymateb i anghenion dysgu a sgiliau carcharorion.

Mae'n werth nodi hefyd bod y broses o ddarparu addysg a sgiliau mewn carchardai a'r ymgais i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn dibynnu ar drefn mewn carchar. Er enghraifft, dim ond hyn a hyn o oriau sydd ar gael i garcharorion yn ystod y dydd er mwyn defnyddio'r gwasanaethau addysg a bydd problemau diogelwch mewn unrhyw garchar yn aml yn arwain at 'roi pawb dan glo' sy'n golygu wedyn na all carcharorion ddefnyddio'r gwasanaethau addysg. Gall faint o amser sydd ar gael i unigolyn fynychu hyfforddiant cymorth cyflogadwyedd effeithio'n negyddol ar ei barodrwydd ar gyfer cyflogaeth neu ragor o hyfforddiant ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Beth yw'r cysylltiadau rhwng polisi/rhaglenni Llywodraeth Cymru a'r system gyfiawnder?

Fel yr amlinellir uchod, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgarwch dysgu troseddwy yn sicrhau cysondeb â nifer o ymrwymadau a blaenoriaethau allweddol a nodir yn y *Rhaglen Lywodraethu: Symud Cymru Ymlaen*: i sicrhau mwy o swyddi a gwell swyddi drwy economi gryfach a thecach. Y blaenoriaethau o ran sgiliau fydd helpu unigolion di-waith ac economaidd anweithgar, sy'n agos i'r farchnad lafur ac yn bell ohoni, i gael cyflogaeth, ei chadw a chamu ymlaen ynddi. Nodir yr ymrwymadau hyn ymhellach yn *Ffyniant i Bawb* sy'n amlinellu'r uchelgais i "alluogi pobl i wireddu eu huchelgais ac i wella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy".

Rydym hefyd wedi ceisio cysoni'r ddarpariaeth â'r uchelgeisiau a nodwyd yn *Nghynllun Cyflogadwyedd* Llywodraeth Cymru, yn bennaf yr uchelgais i sicrhau bod gan unigolion y sgiliau sydd eu hangen i gymryd rhan lawn yn y farchnad lafur ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Hefyd, rydym wedi sicrhau bod darpariaeth dysgu a sgiliau mewn carchardai yn ystyried *Strategaeth Cynhwysiant Digidol* Llywodraeth Cymru (a gwmpesir hefyd yn y Rhaglen Lywodraethu) a'r amcanion a amlinellir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* (sydd hefyd yn cwmpasu Strategaeth y Gymraeg a'r polisi ynglŷn â Chynaliadwyedd Amgylcheddol) a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf hon yn amlinellu 7 nod y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt er mwyn sicrhau y daw Cymru yn lle gwell i fyw ynddo yn awr ac yn y dyfodol.

Pwy yw'r partneriaid/rhanddeiliaid allweddol y byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiwn glywed ganddynt?

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n rhan o daith dysgu carcharorion yn ystod eu cyfnod yn y carchar ac yn ystod eu cam adsefydlu. Y partneriaid allweddol dan sylw yw: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (sy'n comisiynu gweithgarwch dysgu ym mhob un o garchardai Cymru); Gyrfa Cymru; Y Ganolfan Byd Gwaith/yr Adran Gwaith a Phensiynau; Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; sefydliadau yn y trydydd sector sy'n chwarae rôl allweddol o ran helpu carcharorion i gael mynediad at y farchnad gyflogaeth. Cynhaliodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith weithdy gyda rhanddeiliaid allweddol yn ddiweddar er mwyn adolygu'r cymorth i garcharorion. Caiff adroddiad ei gyhoeddi dros yr haf ar yr allbynnau o'r drafodaeth hon.

Rydym yn cyfarfod â'r sefydliadau hyn yn rheolaidd er mwyn trafod yr holl faterion o ran gwella taith carcharorion. Bydd hyn yn cynnwys materion o ran darparu addysg a hyfforddiant mewn carchardai, yn ogystal â sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar waith yn cael eu hintegreiddio'n well ac yn gweithio'n gydweithredol, yn enwedig yn ystod cam adsefydlu carcharor.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar lefel weithredol wrth ddarparu addysg a sgiliau mewn carchardai yng Nghymru, gan gyfarfod yn rheolaidd er mwyn blaengynllunio a datblygu ffocws ar gyflogadwyedd sy'n gyson â blaenoriaethau a pholisïau presennol Llywodraeth Cymru.

Ar lefel strategol a pholisi, hyd yma, bu diffyg perthynas waith ac ymgysylltu uniongyrchol â swyddogion polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Wrth inni symud ymlaen gyda'r agenda hon, gellid cyflawni rhagor yn y maes hwn a gallai ymgysylltu â'r Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru roi'r momentwm i ragor o ymgysylltu dwys ar lefel polisi.

Mae trefniadau cyllido a darparu yn amrywio o fewn yr ystad garchardai yng Nghymru. Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am gomisiynu'r holl ddarpariaeth addysg a dysgu mewn carchardai yng Nghymru. Er mai staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am weithgarwch dysgu yn CEM Caerdydd, Abertawe, Brynbuga a Phrescoed, mae staff CEM Parc wedi'u cyflogi gan G4S. Mae trefniant ar wahân ar waith i CEM Berwyn lle mae darpariaeth addysg a dysgu wedi'i chontractio i Novus Cambria. Mae amrywiadau mawr o ran cyllid hefyd, gyda'r gyllideb ar gyfer CEM Berwyn wedi'i phennu ar lefel sy'n cyfateb i gyfanswm y cyllid ar gyfer yr holl garchardai yn y de gyda'i gilydd. Bydd angen ailystyried y trefniadau cyllido a darparu wrth inni symud ymlaen. Mae cyllid wedi aros yn ddigyfnewid ar gyfer carchardai yn y de ers 2009 ac nid yw wedi ystyried cynnydd o ran costau cyflog, h.y. cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiynau.